WINTER 2023/24

NO.1

Funded by UK Government

CYNNAL Y CARDI
Creu Cymunedau Cynaliadwy
Creating Sustainable Communities

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# NEWSLETTER



## WELCOME

## UK SHARED PROSPERITY FUND

## TRANSFORMING TOWNS

## ARFOR

## MEET THE TEAM

## NEWS

Trawsnewid Trefi
Transforming Towns

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

ARFOR CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

POWERED BY LEVELLING UP

# WELCOME

**Welcome to the new edition of our Cynnal y Cardi Newsletter, over the next few pages we bring you news on our latest programme of projects delivered in Ceredigion. The Ceredigion Economic Strategy 2020-2035 sets out how we will work together towards achieving strong, sustainable and more resilient economic growth for Ceredigion, created and shared by all.**



**Councillor Clive Davies Ceredigion County Council's Cabinet Member for Economy and Regeneration.**

The Ceredigion Corporate Plan has identified boosting the economy as the number one priority for Ceredigion County Council, because we realise the need to tackle some of the challenges we have to provide our people and enterprises with the opportunities to grow and thrive here in Ceredigion.

The Ceredigion Economic Strategy is a framework for building a collaborative approach to develop an ambitious, resilient and unique Ceredigion, where people can see a clear future for themselves.

The delivery of the Strategy sits within the Growth and Enterprise structure of Ceredigion County Council with the Cynnal y Cardi team delivering project activity on the ground.




**Click on the strategy to view in full**



**The UKSPF** programme provides three years funding for local investment. The Mid Wales Region has been allocated £42 million from 1st April 2022 to 31st March 2025 and £14 million allocated to Ceredigion. The primary goal of the UKSPF is to build pride in Place and increase life chances across the UK. This aligns with Levelling Up White Paper missions, particularly: 'By 2030, pride in place, such as people's satisfaction with their town centre and engagement in local culture and community, will have risen in every area of the UK, with the gap between the top performing and other areas closing.'

The successful **UKSPF applications in Ceredigion** are published on the Ceredigion website, visit **here** to see the full list.

Ceredigion-based charity, **HAHAV**, has been awarded a transformative grant to provide a new arts therapy room facility at Plas Antaron, its Living Well Centre in Aberystwyth. The funding will also enable a programme of participatory arts, offering creative, cultural and heritage opportunities for people with chronic, life-limiting/life-threatening illness, their carers, and bereaved people across the county. The project is funded by the UK Government's Levelling Up initiative, in partnership with Ceredigion County Council.

Two projects have already launched in Aberystwyth - participatory arts looking at heritage and a textiles series exploring "sense of place".

Dr Alan Axford OBE, HAHAV's Chair of Trustees, said: "We are delighted to receive further support from the UK Government and Ceredigion County Council, to make our dream of a dedicated Arts Therapy room a reality. This generosity allows us to bring forward our plans and will transform the way we can support vulnerable people into the future. And, we'll also be able to deliver a comprehensive programme of creative activities across the county, including some harder to reach rural areas over the coming months. Our sincerest thanks, for this life-changing support!"



**Sarah Eva, Jan May, Dai Thomas Haul arts facilitator Bryn Jones and Susie Scott, HAHAV Living Well manager**

The **SBARC** Ceredigion project was also successful in the UKSPF fund, launched in September 2023, funded by the UK Government, driven by Levelling Up and managed by Menter a Busnes. The project gives 24 aspiring Ceredigion entrepreneurs an opportunity to gain valuable insight and to learn from the very best entrepreneurs at home, and abroad.



As part of the 18-month project, the successful candidates will spend two residential weekends in Ceredigion, and take part in a study tour abroad. The programme will also offer participants the opportunity to gain a postgraduate level 7 Leading Change certificate from Aberystwyth University. Anyone 18 years of age or over that lives or works in Ceredigion can apply for SBARC Ceredigion.

As part of the project launch, there was a successful campaign to recruit the first cohort of 12 people to take part in the SBARC Ceredigion programme this Autumn. A farmer, an illustrator, a TV producer, and a musician are among the twelve selected for SBARC Ceredigion programme; read their biographies to learn more. The first cohort of twelve individuals will enjoy a host of learning experiences, including seminars, workshops, and mentoring opportunities and a study tour to Reykjavik, Iceland.



The first residential weekend took place in Cardigan, with a full programme including a talk from local entrepreneurs James Lynch, Founder of Fforest, Pizza Tipi and the Albion Hotel, and a tour of Huit Denim workshops with the Founder, David Hieatt. The programme included guidance on establishing a business in terms of finance etc, negotiation skills, and a social media workshop by Shoned Owen, the founder and CEO of Tanya Whitebits.



The group learnt about the development of Cardigan town with a talk from Councillor Clive Davies, Ceredigion County Council's Cabinet Member for Economy and Regeneration.
The group are looking forward to the study tour to Reykjavik, Iceland at the end of November, where there will be an opportunity to learn from leading entrepreneurs, visit a range of businesses and learn about sustainable business practices and gender equality in the workplace.

There are high hopes for the 12 first recruits, says Rural and Development Director at Menter a Busnes, Eirwen Williams. "We've got a great group of people taking part in the first phase of SBARC Ceredigion. They're from all walks of life and are all eager to learn, not only from the business leaders they're meeting, but also from each other. We can't wait to see what they go on to achieve."

Another successful project is **Antur Cymru's** pop-up retail business. A positive business support service which will expand across Mid & West Wales following an encouraging first year.

Antur Cymru's pop-up retail project in Aberystwyth had such a positive impact they have opened another test space in Newcastle Emlyn. And the social enterprise's latest venture – Cymorth Busnes Lleol / Local Business Support - plans to add another location in 2024. (cardigan is scheduled for opening in Dec)



Funded by UK Government and driven by Levelling-Up via Ceredigion and Carmarthenshire councils, the scheme also includes guidance and advice for start-ups, entrepreneurs, and independent traders across the region via a team of skilled and experienced mentors and advisors.

Meanwhile, the test trading spaces give people the opportunity to develop ideas, trial products and generate a customer base whilst being given advice on how to build their commercial ventures.

"The latest space is now up and running and we've already had a lot of interest from prospective traders, customers and the local community," said Julie. "Unlike Aberystwyth, where last year it was a pilot programme, in Newcastle Emlyn we already have the foundations, learning and systems in place to hit the ground running, which is what we've managed to do. "There are already businesses on-site selling their wares, including bespoke fashion, locally made gifts and flowers, and the wider service offering coaching and business support will be on hand to help existing and new businesses across the two counties."

Previously known as New Skills New Start, the Local Business Support project will also feature drop-in surgeries, training, networking opportunities and runs until next December.

Bronwen Raine, Managing Director of Antur Cymru, said the organisation is committed to supporting more businesses than ever before in Wales and is well-placed to do so now as their geographical reach increases. "Having Aberystwyth, Newcastle Emlyn and the next space we hope to announce shortly means we are able to have a wider effect nationwide," she added.




"We thank everyone for their support so far – particularly the local authorities of Ceredigion and Carmarthenshire – and are excited to all work together to give anyone with a business idea the support they need to make it a reality.

"We will also be out in the community supporting existing businesses, and with the prospect of more locations in the future the results will no doubt have a positive long-term impact on local economies."

**The Multiply fund** which is part of the wider UK Shared Prosperity Fund, seeks to attract projects that aim to improve functional numeracy skills through free personal tutoring, digital training, and flexible courses. Mid Wales has a budget of £5 million for Multiply projects up to December 2024. However, this fund is now closed.

**The Cynal y Cardi Fund** is also closed, the team are busy going through the applications along with the expertise of the panel. The fund offers support to community development and local businesses in these difficult economic times. We hope to publish the successful applications in our next edition.

**The Transforming Towns Placemaking Grant** is a capital grant scheme that covers a number of capital investment regeneration activities in town centres. Funded by Welsh Government Transforming Towns programme and promoted by the Growing Mid Wales Partnership.
6 Ceredigion towns have been identified in the region to guide investment - Aberystwyth, Aberaeron, Cardigan, Lampeter, Llandysul and Tregaron. We will be publishing more information on Transforming Towns in our next edition.

Another programme in which Cynnal y Cardi are delivering is **ARFOR**, a joint venture by Carmarthenshire, Ceredigion, Gwynedd and Anglesey Councils which seeks to use entrepreneurship and economic development to support the heartlands of the Welsh language and, thus, maintain the language. Since the launch of ARFOR in 2019 the Programme has created **238 full-time equivalent jobs,** created **89 part-time jobs,** and provided support to over **150 businesses** across the ARFOR regions.

ARFOR's Enterprising Communities fund encourages the creation of a variety of jobs in order for young people and families to be able to work in their indigenous communities. In doing so it responds to the possible risk of losing essential local assets and services from these communities. The fund has recently closed and successful applicants will be published shortly.

One such business is Atebol, Managing Director Owain Saunders Jones recently spoke to us about how ARFOR has supported his business and staff in rural north Ceredigion, please see the case study on the next page.

The **ARFOR** Challenge Fund will be open to collaborative applications between any individuals, organisations, community groups or businesses who are prepared to demonstrate an innovative solution to a challenge that exists in their local community.



ARFOR CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

# Atebol Case Study

Ceredigion has historically been a focal point in the publishing world. **Atebol** is a leading company that has gone from strength to strength operating within the creative sector specialising in story making and multimedia print and digital content and has won countless awards for its work .

The company was set up over twenty years ago in a rural area on the outskirts of Aberystwyth mainly to promote the Welsh language and create employment in rural Wales by publishing and creating vibrant and appealing content for the education, school and home sector through the medium of Welsh and bilingually.

As the company grows, so do the numbers of jobs. An important objective for the company's credentials is to support the local rural economy by creating good jobs enabling individuals to live in their communities, develop and achieve well-paid career aspirations.



Managing director Owain Saunders Jones said "Talent is the most important thing in business and there is talent here in Ceredigion. That mindset helps the company to provide a more caring service to their clients.
By growing it is possible to offer new services and higher wages and expand the types of jobs that exist."

Although the company is growing, it is very clear that her heart is firmly rooted in Ceredigion. "This is where the company was founded and there are very strong links with the local community."

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNNAL Y CARDI
Creu Cymunedau Cynaliadwy
Creating Sustainable Communities

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Atebol's clients now span various sectors in Wales and with the support of Arfor, it is possible to develop and open new markets as well as ones with growth potential, to promote and sell creative talent from Wales and beyond the border ensuring a sustainable and successful future.

Arfor's support will enable the company to strategically invest in training and technology as to ensure there are no gaps within developing new skills that will promote career development. "A mindset of continuous learning and improvement is integral to attracting and retaining staff. From the first point of establishing new staff, to online coaching, to identification and mapping, and skills development to ensure sustainable growth, helps to retain wealth within the region, and creates an opportunity for young people and families to stay, or to return to their inherent communities" according to Owain Saunders Jones



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNNAL Y CARDI
Creu Cymunedau Cynaliadwy
Creating Sustainable Communities

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

# Meet the Cynnal y Cardi Team



**Eirlys Lloyd**
Community & Partnerships Manager



**Rhiannon John**
Rural Towns Development Officer



**Catrin George**
Rural Communities Officer



**Gwydion ab Ifan**
ARFOR Programme Co-ordinator



**Anwen McConochie**
Marketing Officer



**Emma Parry-Jones**
Administrative Support Officer



**Sara Beechey**
Food and Drink Festival  coordinator

# NEWS - JOBS

## Project and Business Development Officer - Reference: REQ105061

**Closing date: 13/12/2023**
**37 hours / Fixed-Term**
**29,269 - 31,364 ***
**Location: Penmorfa, Aberaeron**
**All salary values are pro-rata.**
**About the role - Contract: Temporary / Fixed Term until 31 March 2025.**

We are looking to recruit a **Project and Business Development Officer** to join our busy Economy and Regeneration Service.





**For more information visit here or contact Eirlys Lloyd on Eirlys.lloyd@ceredigion.gov.uk**




# NEWS - WHAT'S ON...?









# Cynnal y Cardi Local Economic Partnership

The Cynnal y Cardi Local Partnerhsip is intended to bring together a diverse range of local stakeholders to act as an advisory group to Ceredigion County Council in achieving outcomes for Ceredigion residents, communities and businesses.

To steer and monitor the implementation of local economic activity so as to ensure that the priorities and actions are aligned to the Ceredigion Economic Strategy and o influence and guide on the design and implementation of project activity being developed for other economic and community funding streams.

# Partneriaeth Economaidd Lleol Cynnal y Cardi

Bwriad partneriaeth leol Cynnal y Cardi yw dod ag ystod amrywiol o randdeiliaid lleol ynghyd i weithredu fel grŵp cynghori i Gyngor Sir Ceredigion ac i gefnogi trigolion, cymunedau a busnesau Ceredigion. Arwain ac i fonitro gweithgareddau economaidd lleol er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau a'r camau gweithredu yn cyd-fynd â Strategaeth Economaidd Ceredigion ac ymestyn eu dylanwad ac arweiniad ar ddylunio a gweithredu gweithgarwch prosiect sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer ffrydiau cyllido economaidd a chymunedol eraill sydd o fudd i'r Sir.

ecodyfi

LLGC NLW

menter aberteifi

GOLUD·GWLAD·RHYDDID

CATAPULT Offshore Renewable Energy

colegsirgâr

barcud

CLWB BUSNES aberystwyth BUSINESS CLUB

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# SMART BUSNES

antur cymru enterprise

Gall byd trawsnewid digidol fod yn heriol i lawer o fusnesau, ond heddiw mae'n hanfodol ar gyfer gwella gwerthiant a throsglwyddiad. Gan gydnabod hyn, mae SMART Business yma i helpu busnesau Ceredigion. Bydd y prosiect yn eu galluogi i dderbyn cyngor arbenigol AM DDIM drwy adolygiad personol a datrysiadau ymarferol ar gyfer popeth sy'n ymwneud â digidol a thechnoleg.

## CYNGOR SMART - RYDYCH CHI'N DWEUD WRTHYM BETH Y MAE ANGEN HELP ARNOCH CHI

Cyngor busnes AM DDIM drwy adolygiad digidol un-i-un sydd yn phersonol. Gall SMART Busnes helpu gyda'r canlynol:

- **Ymarfer gorau ar gyfer Cyfryngau Cymdeithasol a chynnal presenoldeb ar-lein**
- **Adolygiadau gwefan**
- **Marchnata Digidol a Rheoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid (CRM)**
- **Cyfrifiad Digidol, Cyfrifiadureg Excel, a chyllid ar sail cwmni sy'n seiliedig ar y Cwmwl**
- **Defnyddio meddalwedd ac apiau i wella prosesau eich busnes**
- **Os yn berthnasol, gweithredu Technolegau Busnes Rhyngrwyd (IoT) AM DDIM**
- **Dadansoddiad o'ch presenoldeb ar-lein a'r dref yr ydych yn gweithredu ynddi.**
- **Gweithdai ar-lein a chefnogaeth dilynol**

## TREFI WIFI SMART

Mae gan bob tref yng Ngheredigion WiFi, ac mae hyn yn cynhyrchu gwybodaeth sy'n ddefnyddiol i fusnesau yn mhob tref. Mae prosiect SMART Busnes yn cynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd arbenigol i drefi a busnesau ar unrhyw gam o'u taith wrth gael mynediad a defnyddio'r wybodaeth hon. Rydym yn cynnig cefnogaeth gyda;

- Mynediad a deall sut i ddefnyddio WiFi Tref
- Defnyddio cofrestriad drwy e-bost i system WiFi y dref i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau, gweithgareddau, a datblygiadau yn y dref fel rhan o strategaeth marchnata effeithiol.
- Deall manteision WiFi Tref a sut y gellir ei ddefnyddio i helpu i wneud penderfyniadau fel tref neu fel busnes unigol.

## SMART IOT

Yng Ngheredigion mae rhwydwaith rhyngrwyd o bethau (IoT),un o'r gorau yng Nghymru. Gall prosiect SMART Busnes ganfod, helpu, a chefnogi gyda gweithredu technoleg synhwyro a allai fod am ddim. Mae arian ar gael i nifer gyfyngedig o fusnesau yn y dref i gael gosod, deall a defnyddio'r technoleg hon. P'un a yw i fesur nifer y bobl sy'n dod heibio, cymryd adborth gan gwsmeriaid, neu efallai lefelau tymheredd ar gyfer siopau bwyd er enghraifft.

## CAMAU NESAF

Os hoffech chi gael cefnogaeth i symleiddio neu gael mwy o ddealltwrydd o'ch gweithgareddau busnes er mwyn cynyddu gwerthiant a throsglwyddiad, cysylltwch â'n cynghorwyr i drefnu cyfarfod. Gallwn gynnig cyfarfodydd wyneb yn wyneb neu ar-lein, y dewis yn eich pleser chi. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu drwy Gronfa Ffyniant a Rennir y DU Cyngor Sir Ceredigion o dan agenda Lefelu i Fyny Llywodraeth y DU.

**I drefnu cyfarfod, sganiwch yr cod QR, neu ddily y ddolen isod os gwelwch yn dda**
**https://forms.office.com/e/Rz5eAPASwN**
**neu**
**email enquries@anturcymru.org.uk**

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU | WEDI'I YSGOGI GAN FFYNIANT BRO | POWERED BY LEVELLING UP | Funded by UK Government







**Dewch i greu, darganfod a mwynhau.**

rofwch wahanol fathau o gelfyddyd a chael eich ysbrydoli gan dreftadae a diwylliant. Celf. Cerddoriaeth. Barddoniaeth. Ffilmiau. Crefftau.

*Yn agored i unrhyw un â salwch cronig sy'n cyfyngu ar fywyd, gofalwyr, aelodau'r teulu a'r rhai mewn profedigaeth.*

Lleoliadau ar draws Ceredigion. Am ragor o wybodaeth ffoniwch Susie ar 01970 611550 neu e-bostiwch: admin@hahav.org.uk

*Pob cwrs am ddim. Does dim angen profiad.*

HAHAV yn cydweithio mewn partneriaeth â Haul. | Cyngor Sir Ceredigion | FFYNIANT BRO | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# NEWYDDION - GWAITH

**Swyddog Prosiect a Datblygu Busnes - Cyfeirnod: REQ105061**

**Dyddiad cau: 13/12/2023**
**37 awr / Tymor Penodol**
**29,269 - 31,364 ***
**Lleoliad: Penmorfa, Aberaeron**
Mae'r holl werthoedd cyflog yn pro-rata.

Ynglŷn â'r rôl - Contract: Dros Dro / Cyfnod Penodol tan 31 Mawrth 2025.

Rydym yn awyddus i recriwtio Swyddog Prosiect a Datblygu Busnes i ymuno â'n Gwasanaeth Economi ac Adfywio prysur.




Am fwy o wybodaeth cliciwch **yma** neu cysylltwch ag Eirlys Lloyd ar:
**Eirlys.lloyd@ceredigion.gov.uk**

---

Tyfu Canolbarth Cymru
Growing Mid Wales

**Mae cylchlythyr diweddaraf Tyfu Canolbarth Cymru ar gael nawr**




Gall darllenwyr newydd danysgrifio drwy e-bostio
tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru

# Cwrdd â Thîm Cynnal y Cardi



**Eirlys Lloyd**
Rheolwr Partneriaethau Cymunedol



**Rhiannon John**
Swyddog Datblygu Trefi Gwledig



**Catrin George**
Swyddog Cymunedau Gwledig



**Gwydion ab Ifan**
Cydlynydd ARFOR



**Anwen McConochie**
Swyddog Marchnata



**Emma Parry-Jones**
Swyddog Cymorth Gweinyddol



**Sara Beechey**
Cydlynydd Digwyddiadau Bwyd a Diod

atebol

ARFOR CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

# Astudiaeth Achos Atebol

Yn hanesyddol mae Ceredigion wedi bod yn ganolbwynt o ran y byd cyhoeddi. Cwmni blaenllaw sydd wedi mynd o nerth i nerth yn gweithredu o fewn y sector greadigol yn arbenigo mewn creu stori a chreu cynnwys print a digidol amlgyfrwng ac sydd wedi ennill gwobrau di-ri am ei gwaith yw **Atebol.**

Sefydlwyd y cwmni dros ugain mlynedd yn ôl mewn ardal wledig ar gyrion Aberystwyth, yn bennaf i hybu'r Gymraeg a chreu cyflogaeth yng nghefn gwlad Cymru drwy gyhoeddi a chreu cynnwys bywiog ac apelgar ar gyfer y sector addysg, ysgolion a'r cartref drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog.

Wrth i'r cwmni dyfu, tyfu gwna'r niferoedd o swyddi. Amcan pwysig o ran rhinweddau'r cwmni oedd cefnogi'r economi wledig leol drwy greu swyddi da yn galluogi unigolion i fyw yn eu cymunedau, i ddatblygu a chyflawni dyheadau gyrfaoedd gyda chyflog da. Yn ôl rheolwr gyfarwyddwr Atebol, Owain Saunders Jones "Talent ydi'r peth mwyaf pwysig mewn busnes ac mae yna dalent yma yng



Ngheredigion. Mae'r meddylfryd yna yn help i'r cwmni i roi gwasanaeth mwy gofalgar i'w cleientiaid. Drwy dyfu mae modd cynnig gwasanaethau newydd a chyflogau uwch ac ehangu'r mathau o swyddi sy'n bodoli."
Mae'n amlwg bod calon y cwmni yn gadarn yng Ngheredigion.
"Dyma le y sefydlwyd y cwmni ac mae yna gysylltiadau cryf iawn gyda'r gymuned leol."

Erbyn hyn, mae cleientiaid Atebol yn ymestyn dros amryw sector yng Nghymru a gyda chymorth Arfor, mae modd datblygu ac agor marchnadoedd newydd yn ogystal â rhai sydd â photensial i dyfu, er mwyn hyrwyddo a gwerthu talent greadigol o Gymru tu hwnt i'r ffin gan sicrhau dyfodol cynaliadwy a llwyddiannus.

Bydd cefnogaeth Arfor yn galluogi'r cwmni i fuddsoddi yn strategol mewn hyfforddiant a thechnoleg er mwyn sicrhau nad oes bylchau o ran uwchraddio sgiliau fydd yn hyrwyddo datblygiad gyrfa. "Mae meddylfryd o ddysgu a gwella yn barhaus yn rhan annatod o ddenu a chadw staff. O'r pwynt cyntaf o sefydlu staff newydd, i hyfforddi ar-lein, i adnabod ac i fapio, a datblygu sgiliau er sicrhau twf cynaliadwy, yn helpu i gadw cyfoeth o fewn y rhanbarth, ac yn creu cyfle i bobl a theuluoedd ifanc aros, neu i ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid" yn ôl Owain Saunders Jones.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYNNAL Y CARDI
Creu Cymunedau Cynaliadwy
Creating Sustainable Communities

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Mae'r gronfa **Lluosi**, sy'n rhan o GFfGDU, yn ceisio denu prosiectau sydd wei eu hanelu at wella sgiliau rhifedd swyddogaethol trwy diwtora personol am ddim, hyfforddiant digidol, a chyrsiau hyblyg. Mae gan y Canolbarth gyllideb o £5 miliwn ar gyfer prosiectau Lluosi hyd at fis Rhagfyr 2024. Fodd bynnag, mae'r gronfa hon bellach ar gau.

Mae **Cronfa Cynal y Cardi** hefyd, bellach wedi cau ac mae'r tîm yn brysur yn mynd drwy'r ceisiadau ynghyd ag arbenigedd y panel. Mae'r gronfa yn cynnig cymorth i ddatblygu cymunedol a busnesau lleol yn y cyfnod economaidd anodd hwn. Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r ceisiadau llwyddiannus yn ein rhifyn nesaf.

Mae grant **Creu Lleoedd Trawsnewid Trefi** yn gynllun grant cyfalaf sy'n cwmpasu nifer o weithgareddau adfywio buddsoddiadau yng nghanol trefi. Wedi'i hariannu gan raglen Trawsnewid Trefi, Llywodraeth Cymru a'i hyrwyddo gan Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Mae 6 o drefi Ceredigion wedi'u nodi i arwain buddsoddiad - **Aberystwyth, Aberaeron, Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron.** Byddwn yn cyhoeddi mwy o wybodaeth am Trawsnewid Trefi yn ein rhifyn nesaf.

Rhaglen arall y mae Cynnal y Cardi yn ei chyflwyno yw ARFOR, menter ar y cyd gan Gynghorau Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Gwynedd a Môn sy'n ceisio defnyddio entrepreneuriaeth a datblygiad economaidd i gefnogi cadarnleoedd y Gymraeg ac, felly, cynnal yr iaith. Ers lansio ARFOR yn 2019 mae'r rhaglen wedi creu **238 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, wedi creu 89 o swyddi rhan-amser, ac wedi darparu cefnogaeth i dros 150 o fusnesau** ar draws rhanbarthau ARFOR.

Un busnes o'r fath yw Atebol, siaradodd y Rheolwr Gyfarwyddwr Owain Saunders Jones â ni yn ddiweddar am sut mae ARFOR wedi cefnogi ei fusnes a'i staff yng nghefn gwlad gogledd Ceredigion.

Mae cronfa Cymunedau Mentrus **ARFOR** yn annog creu amrywiaeth o swyddi er mwyn i bobl ifanc a theuluoedd allu gweithio yn eu cymunedau brodorol. Wrth wneud hynny, mae'n ymateb i'r risg bosibl o golli asedau a gwasanaethau lleol hanfodol o'r cymunedau hyn. Mae'r gronfa wedi cau yn ddiweddar a bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi'n fuan.

Bydd Cronfa Her **ARFOR** yn agored i geisiadau cydweithredol rhwng unrhyw unigolion, sefydliadau, grwpiau cymunedol neu fusnesau sy'n barod i ddangos ateb arloesol i her sy'n bodoli yn eu cymuned leol.



Prosiect llwyddiannus arall yw busnes manwerthu dros dro gan **Antur Cymru.** Gwasanaeth cymorth busnes cadarnhaol a fydd yn cael ei ladaenu ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru yn dilyn blwyddyn gyntaf galonogol iawn.

antur cymru enterprise
Supporting business, towns & communities
Cefnogi busnes, trefi a chymunedau

Cafodd y prosiect yn Aberystwyth gymaint o ganmoliaeth ac effaith gadarnhaol, maen nhw wedi penderfynu agor gofod prawf arall yng Nghastell Newydd Emlyn. Elfen arall, mwy diweddar y fenter yw Cymorth Busnes Lleol sy'n bwriadu ychwanegu lleoliad arall yn 2024. (Y gobaith yw agor yn  Aberteifi mis Rhagfyr)



Mae'r prosiect wedi'i ariannu gan Lywodraeth y DU a'i yrru gan Ffyniant Bro drwy'r cynghorau; Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys cefnogaeth a chyngor i fusnesau newydd, entrepreneuriaid a masnachwyr annibynnol drwy dîm o fentoriaid a chynghorwyr medrus a phrofiadol.

Yn y cyfamser, mae'r mannau masnach yn rhoi'r cyfle i bobl ddatblygu syniadau, treialu cynhyrchion a chreu sylfaen cwsmeriaid wrth dderbyn cyngor ar sut i adeiladu eu mentrau masnachol.

Dywedodd Rheolwr y Prosiect, Julie Morgan, y bydd mwy o ffocws ar leihau carbon, lleihau gwastraff a gwella cynaliadwyedd, digideiddio a mwy. "Mae'r gofod diweddaraf bellach ar waith ac rydym eisoes wedi cael llawer o ddiddordeb gan ddarpar fasnachwyr, cwsmeriaid a'r gymuned leol," meddai Julie. "Yn wahanol i Aberystwyth, a oedd yn fenter beilot, y mae gan safle Castell Newydd Emlyn y sylfeini, y dysgu a'r systemau ar waith i gychwyn yn syth bin. "Mae yna fusnesau eisoes ar y safle yn gwerthu eu nwyddau, gan gynnwys ffasiwn bwrpasol, anrhegion a blodau lleol, a bydd y gwasanaeth ehangach sy'n cynnig hyfforddiant a chymorth busnes wrth law i helpu busnesau presennol a busnesau newydd ar draws y ddwy sir."




Bydd y prosiect Cymorth Busnes Lleol yn rhedeg tan Fis Rhagfyr nesaf ac yn cynnig cymorthfeydd galw heibio, hyfforddiant, cyfleoedd rhwydweithio ac yn rhedeg tan fis Rhagfyr nesaf. Dywedodd Bronwen Raine, Rheolwr Gyfarwyddwr Antur Cymru, fod y sefydliad wedi ymrwymo i gefnogi mwy o fusnesau nag erioed o'r blaen yng Nghymru a'i fod mewn sefyllfa dda i wneud hynny nawr wrth i'w cyrhaeddiad daearyddol gynyddu. "Mae cael Aberystwyth, Castell Newydd Emlyn a'r gofod nesaf rydym yn gobeithio ei ei gyhoeddi'n fuan, yn golygu ein bod yn gallu cael effaith ehangach ledled y wlad," ychwanegodd. "Rydym yn diolch i bawb am eu cefnogaeth hyd yma - yn enwedig awdurdodau lleol Ceredigion a Sir Gaerfyrddin - ac rydym yn gyffrous i bawb weithio gyda'i gilydd i roi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar unrhyw un sydd â syniad busnes i'w wireddu. "Byddwn hefyd allan yn y gymuned yn cefnogi busnesau presennol, a gyda'r gobaith o gael mwy o leoliadau yn y dyfodol mae'n siŵr y bydd y canlyniadau yn cael effaith hirdymor gadarnhaol ar economïau lleol."

Posiect arall a fu'n llwyddiannus yng nghronfa CFfGDU yw **SBARC** Ceredigion, a lansiwyd ym mis Medi 2023, a ariannwyd gan Lywodraeth y DU, wedi'i yrru gan Ffyniant Bro a'i reoli gan Menter a Busnes. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i 24 o entrepreneuriaid uchelgeisiol yng Ngheredigion gael mewnwelediad gwerthfawr a dysgu gan yr entrepreneuriaid gorau gartref, a thramor.



Fel rhan o'r prosiect 18-mis, bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn treulio dau benwythnos preswyl yng Ngheredigion, a thaith astudio tramor. Bydd y rhaglen hefyd yn rhoi cyfle i'r unigolion i gwblhau tystysgrif ôl-radd lefel 7 ar Arwain Newid drwy Brifysgol Aberystwyth. Er mwyn ymgeisio ar gyfer SBARC Ceredigion, mae'n rhaid bod yn byw neu weithio yng Ngheredigion ac yn hyn na 18 oed.

Roedd ymgyrch llwyddiannus yn rhan o lansio'r prosiect er mwyn recriwtio'r criw cyntaf o 12 person i gymryd rhan yn rhaglen SBARC Ceredigion dros yr Hydref. Mae ffermwr, darlunydd, cynhyrchydd teledu a cherddor ymysg y deuddeg sydd wedi eu dewis; darllenwch eu proffiliau i ddysgu mwy amdanynt. Bydd y criw cyntaf o ddeuddeg yn mwynhau ystod o brofiadau dysgu gan gynnwys seminarau, gweithdai, cyfloedd mentora a thaith astudio i Reykjavik, Gwlad yr Iâ.

Cynhaliwyd y penwythnos preswyl cyntaf yn Aberteifi, gyda rhaglen lawn gan gynnwys sgyrsiau gan entrepreneuriaid lleol James Lynch, Sylfaenydd Fforest, Pizza Tipi a Gwesty'r Albion, a thaith o weithdai Huit Denim gyda'r Sylfaenydd, David Hieatt. Roedd y rhaglen yn cynnwys arweiniad ar sefydlu busnes o ran arian ayyb, sgiliau negodi a gweithdy cyfryngau cymdeithasol gan Shoned Owen, sylfaenydd a phrif weithredwr Tanya Whitebits.





Dysgodd y grŵp am ddatblygiad tref Aberteifi gyda sgwrs gan y Cynghorydd Clive Davies, Aelod Cabinet Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer yr Economi ac Adfywio. Mae'r criw yn edrych ymlaen at y daith astudio i Reykjavik, Gwlad yr Iâ diwedd Tachwedd, lle bydd yna gyfle i ddysgu mwy gan entrepreneuriaid, ymweld ag amrediad o fusnesau a dysgu am arferion busnes cynaliadwy a chydraddoldeb gender yn y gweithle.

Mae disgwyliadau mawr ar gyfer y 12 cyntaf ar y rhaglen yn ôl Cyfarwyddwr Datblygu a Gwledig Menter a Busnes, Eirwen Williams. "Mae'r deuddeg cyntaf i gymryd rhan yn rhaglen SBARC Ceredigion yn griw grêt. Maen nhw i gyd o gefndiroedd cwbl wahanol ond yn awyddus iawn i ddysgu, nid yn unig gan yr arbenigwyr profiadol y maent yn eu cyfarfod, ond gan ei gilydd hefyd. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at ddilyn eu gyrfaoedd wedi hyn."

Mae'r rhaglen **CFfGDU** yn darparu tair blynedd o gyllid ar gyfer buddsoddiad lleol. Mae Rhanbarth Canolbarth Cymru wedi derbyn £42 miliwn rhwng 1af o Ebrill 2022 a 31ain o Fawrth 2025 a dyrannwyd £14 miliwn i Geredigion. Prif nod CFfGDU yw adeiladu balchder yn ei le a chynyddu cyfleoedd bywyd ledled y DU.

Mae hyn yn gydnaws â chenadaethau’r Papur Gwyn ar Ffyniant Bro, yn enwedig: “Erbyn 2030, bydd balchder mewn lle, megis boddhad pobl â'u tref leol a'r ffordd y maent yn cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol a chymunedol lleol, wedi cynyddu ym mhob rhan o'r DU, a bydd y bwlch rhwng yr ardaloedd sy'n perfformio orau ac ardaloedd eraill yn lleihau".

Cyhoeddir ceisiadau llwyddiannus CFfGDU yng Ngheredigion ar wefan Cyngor Sir Ceredigion, ewch **yma** i weld y rhestr lawn.

Mae'r elusen o Geredigion, **HAHAV**, wedi derbyn grant trawsnewidiol i ddarparu cyfleuster ystafell therapi celfyddydau newydd ym Mhlas Antaron, Canolfan Byw'n Dda yn Aberystwyth. Bydd y cyllid hefyd yn galluogi rhaglen o gelfyddydau cyfranogol, gan gynnig cyfleoedd creadigol, diwylliannol a threftadaeth i bobl â chronig, salwch sy'n cyfyngu ar fywyd/sy'n peryglu bywyd, eu gofalwyr, a phobl mewn profedigaeth ar draws y sir. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu gan fenter Llywodraeth y DU, Ffyniant Bro mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion.ife-limiting/life-threatening illness, their carers, and bereaved people across the county. The project is funded by the UK Government’s Levelling Up initiative, in partnership with Ceredigion County Council.

Mae dau brosiect eisoes wedi eu lansio yn Aberystwyth - celfyddydau cyfranogol yn edrych ar dreftadaeth a chyfres tecstilau sy'n archwilio "ymdeimlad o le".

Dywedodd Dr Alan Axford OBE, Cadeirydd Ymddiriedolwyr HAHAV: "Rydym yn falch iawn o dderbyn cefnogaeth bellach gan Lywodraeth y DU a Chyngor Sir Ceredigion, i wireddu ein breuddwyd o ystafell therapi celfyddydau bwrpasol. Mae'r haelioni hwn yn ein galluogi i gyflwyno ein cynlluniau a bydd yn trawsnewid y ffordd y gallwn gefnogi pobl i niwed yn y dyfodol. A byddwn hefyd yn gallu cyflwyno rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau creadigol ar draws y sir, gan gynnwys rhai ardaloedd gwledig anoddach eu cyrraedd dros y misoedd nesaf. Diolch o galon am y gefnogaeth hon sy'n newid bywydau!"



**Sarah Eva, Jan May, Dai Thomas Haul arts facilitator Bryn Jones and Susie Scott, HAHAV Living Well manager**

# CROESO

Croeso i rifyn newydd ein Cylchlythyr Cynnal y Cardi, dros y tudalennau nesaf rydym yn dod â newyddion i chi am ein rhaglen ddiweddaraf o brosiectau a ddarperir yng Ngheredigion. Mae Strategaeth Economaidd Ceredigion 2020-2035 yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd tuag at sicrhau twf economaidd cryf, cynaliadwy a mwy gwydn i Geredigion, a grëwyd ac a rennir gan bawb.



**Cynghorydd Clive Davies**
**Aelod Cabinet Cyngor Sir Ceredigion dros yr Economi ac Adfywio.**

Mae Cynllun Corfforaethol Ceredigion wedi nodi mai rhoi hwb i'r economi yw un o brif blaenoriaethau Cyngor Sir Ceredigion, gan ein bod yn sylweddoli'r angen i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sydd gennym i roi cyfleoedd i'n pobl a'n mentrau i dyfu a ffynnu yma yng Ngheredigion.

Mae Strategaeth Economaidd Ceredigion yn fframwaith i adeiladu a datblygu dyfodol clir a unigryw i Geredigion a'u chymunedau.

Mae'r Strategaeth yn eistedd o fewn yr adran Twf a Menter, Cyngor Sir Ceredigion gyda thîm Cynnal y Cardi yn cyflawni gweithgarwch y prosiect ar lawr gwlad.




**Cliciwch ar y strategaeth i'w darllen yn llawn**



GAEAF 2023/24

RH.1

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

# CYLCHLYTHYR

## CROESO


## CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN DU

## TRAWSNEWID TREFI

## ARFOR

## CWRDD Â THÎM CYNNAL Y CARDI

## NEWYDDION



Trawsnewid Trefi Transforming Towns

Llywodraeth Cymru Welsh Government

ARFOR CREU GWAITH - CEFNOGI'R IAITH

CYNNAL Y CARDI Creu Cymunedau Cynaliadwy Creating Sustainable Communities

WEDI'I YRRU GAN FFYNIANT BRO